William Williams o'r Wern, 'Yr Hen Seraph', 1781–1840
Gweinidog (A) a phregethwr o fri

Ar ddechrau'r 19eg ganrif yr oedd tri gweinidog a ystyrid yn gewri'r pulpud yng Nghymru, sef John Elias, Christmas Evans a Williams o'r Wern. Fe'i gelwid yn 'dri chedyrn' y pulpud. Ganed William Williams yn Cwm-hyswn-ganol, plwyf Llanfachreth, Meirionnydd, yn un o saith o blant. Nid oedd ei dad, William Probert, a oedd yn saer coed o ran ei waith, yn aelod eglwysig, ond yr oedd yn wrandäwr cyson a byddai'n cynnal dyletswydd deuluaidd ar yr aelwyd yn feunyddiol. Yr oedd ei fam, Jane Edmund, yn aelod gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. (Dywedid bod ei thad Edmund Morgan wedi byw i fod yn 113 oed a'i fod wedi ei gladdu ym mynwent eglwys Trawsfynydd.) Ni dderbyniodd unrhyw addysg ffurfiol pan oedd yn blentyn er iddo ddysgu darllen Cymraeg.

Pan oedd yn dair ar ddeg oed aeth i wrando ar Rhys Dafis yn pregethu mewn tŷ o'r enw Bedd-y-coedwr ac fe gafodd yr oedfa effaith ddofn arno. Yn fuan wedyn aeth i gyfeillach ym Mhenystryd – achos a gychwynnwyd gan Hen Gapel, Llanuwchllyn – i ofyn a gâi ei dderbyn yn aelod. Derbyniwyd ef yn aelod cyflawn yn bedair ar ddeg oed, ac o dan arweiniad ofalus ei fam aeddfedodd yn ysbrydol. Fe'i prentisiwyd fel saer coed ond yr oedd awydd cynyddol yn ei galon i bregethu a dechreuodd wneud hynny pan oedd yn ddeunaw oed.

Bu am gyfnod byr yn ysgol y Parch. William Jones ac yna'n dysgu Saesneg mewn ysgol ym Mwlch-y-ffridd, y Drenewydd, am wyth mis. Ym 1803 aeth i'r athrofa yn Wrecsam ond nid yw'n ymddangos iddo ddisgleirio fel ysgolhaig. Dechreuodd fynd ar deithiau pregethu i'r de ac yn raddol fe ddatblygodd yn bregethwr grymus. Ar derfyn ei gwrs bu o fewn trwch blewyn i dderbyn galwad i Horeb, Aberteifi, ond fe'i darbwyllwyd i'w gwrthod gan T. Jones, Caer. Yn hytrach derbyniodd alwad i fugeilio achosion y Wern a Harwd ger Wrecsam. Dechreuodd ar y gwaith ym 1807 ond

ni chafodd ei ordeinio hyd 28 Hydref 1808. Dim ond un ar ddeg o eglwysi Annibynnol oedd yn sir Ddinbych ar y pryd. Cymerodd achos Rhosllannerchrugog o dan ei adain a sefydlodd achosion yn Llangollen (1811) a Rhiwabon (1813). Yn y cyfnod hwn yr oedd dadleuon diwinyddol chwyrn ac fe ochrodd William Williams gyda'r Calfiniaid gymedrol gan ennyn llid yr Uchel Galfiniaid. Priododd â Rebecca Griffith o Gaer ar 22 Gorffennaf 1817 yn eglwys St John the Baptist ac fe gawsant bedwar o blant. Fe ddaeth i enwogrwydd fel pregethwr yn anad dim a theithiodd ar hyd a lled Cymru yn cyhoeddi'r Efengyl. Meddai ar y ddawn i gyffwrdd a chyfareddu cynulleidfa wrth agor y gair.

Byddai William Williams yn aml yn agor ei bregeth yn ysgafn gan beri i gynulleidfa chwerthin, ond yna byddai'n ymddifrifoli fel eu bod yn eu dagrau. Yr oedd ei bregethau yn glir ac yn ffres. Bu farw ei wraig ym 1836 ac yn fuan wedyn derbyniodd alwad i fugeilio eglwys y Tabernacl, Great Crosshall Street, Lerpwl (Llynlleifiad). Llwyddodd ei waith yno a chynyddodd yr aelodaeth o 256 ym 1836 i 400 ym 1839. Oherwydd cyflwr ei iechyd dychwelodd i fugeilio eglwysi'r Wern a Harwd gan fyw yn Bersham, ac yno y bu farw ar 17 Mawrth 1840. Claddwyd ei weddillion ym mynwent capel y Wern.